# Crynodeb o'r strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu 2022/23

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES






# Cynnwys


1 Cyflwyniad | 4-5

2 Ein gweledigaeth, pwrpas a gwerthoedd | 6

Astudiaeth achos 1: Ymgyrch 'My Name Is' | 7

3 Ein dull gweithredu | 8

Astudiaeth achos 2: Croesawu cydweithwyr newydd | 9

4 Ein cynulleidfaoedd | 10

Astudiaeth achos 3: Y Rhwydwaith Cymdeithasol Go Iawn | 11

5 Ein cyflawniadau | 12-15

6 Ein hamcanion hirdymor | 16

Astudiaeth achos 4: Ymddiriedolaeth Pentref Cambrian | 17

7 Ein themâu ar gyfer 2022/23 | 18

Canolbwyntio ar: Newid ymddygiad trafnidiaeth | 19

Astudiaeth achos 5: Podlediad Jest y Tocyn | 20

8 Gwerthuso ein llwyddiant | 21

Astudiaeth achos 6: Cledrau Cymru | 22

# Cyflwyniad

Eleni, mae'r gyfarwyddiaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu wedi chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus unwaith eto. Mewn amgylchiadau anodd a chyfnewidiol, rydyn ni wedi cyflawni llawer.



**Lewis Brencher**
**Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**
**Trafnidiaeth Cymru**

Mae ein strategaeth gyfathrebu yn amlinellu'r hyn rydyn ni wedi'i gyflawni eleni ac yn nodi sut byddwn ni'n adeiladu arno y flwyddyn nesaf. Rydyn ni'n defnyddio ein strategaeth flynyddol i fod yn dryloyw ynghylch sut rydyn ni'n gweithredu ac yn gwerthuso ein gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu. Mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Awst 2021 a mis Gorffennaf 2022.

Yn Trafnidiaeth Cymru, ein pwrpas yw darparu gwasanaethau trafnidiaeth gynaliadwy sy'n cadw Cymru i symud. Rydyn ni'n gweithio i roi delwedd wahanol i drafnidiaeth gyhoeddus ac mae gan y gyfarwyddiaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu rôl allweddol i'w chwarae. Rydyn ni eisiau i fwy o bobl ddewis trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn lle defnyddio eu car.

Ni fydd y newid hwn mewn ymddygiad yn hawdd. Rydyn ni'n adeiladu brand trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol. Rydyn ni'n cefnogi Llywodraeth Cymru i annog newid mewn ymddygiad o ran teithio fel sydd wedi'i nodi yn Llwybr Newydd (Strategaeth Drafnidiaeth Cymru). Mae'r newid hwn mewn ymddygiad trafnidiaeth yn hanfodol er mwyn ymateb i'r argyfwng hinsawdd.

Wrth i Gymru adfer ar ôl pandemig y coronafeirws, mae'n rhaid i dîm cyfathrebu ac ymgysylltu TrC annog pobl i fynd yn ôl i drafnidiaeth gyhoeddus a denu teithwyr newydd. Fe wnaethon ni ddefnyddio ein rhaglen Teithio'n Saffach i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gwsmeriaid ac i feithrin eu hyder mewn trafnidiaeth gyhoeddus.

Mae'r pandemig wedi rhoi cyfle i ail-lunio delwedd trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Ein rôl ni yw darbwyllo pobl i ddewis trafnidiaeth gyhoeddus a theithio'n fwy cynaliadwy wrth ailgysylltu â'u hanwyliaid, ail-ddarganfod lleoedd a dychwelyd i'r gwaith.

Nid ydym wedi gadael i'r pandemig ein hatal rhag cyfathrebu â'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid. Rydyn ni wedi cynnal digwyddiadau ymgysylltu rhithiol, wedi cynghori gweinidogion y llywodraeth dros alwadau fideo, ac wedi ymgysylltu â miloedd o gwsmeriaid a rhanddeiliaid wyneb yn wyneb. Fe wnaethon ni lansio podlediad ac rydyn ni wedi cynhyrchu 13 pennod. Fe wnaethon ni lansio gwefan integredig newydd, ac erbyn hyn mae gennym, ar gyfartaledd, 248,000 o gwsmeriaid yn ei defnyddio bob mis. Mae'r cyfartaledd hwn yn ddwbl y ffigur ar gyfer yr un cyfnod y llynedd ac yn uwch na chyn y pandemig.

Eleni, fe wnaethon ni lansio ein hymgyrch 'Y Rhwydwaith Cymdeithasol Go Iawn', ymgyrch farchnata aml-ddull fawr gyntaf TrC ar newid ymddygiad. Mae 99.4% o oedolion yng Nghymru wedi gweld yr ymgyrch. Mae'r ymgyrch hon yn dangos ein huchelgais. Rydyn ni eisiau bod yn frand y mae pobl yn ei gysylltu â'u hanwyliaid a'u cymunedau.

Dros y flwyddyn i ddod, byddwn yn defnyddio ein huchelgais a'n talent i newid ymddygiad pobl o ran trafnidiaeth yng Nghymru.



# Ein gweledigaeth, pwrpas a gwerthoedd

## Ein gweledigaeth

**"Creu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid drwy rwydwaith trafnidiaeth diogel y mae Cymru'n falch ohono."**

Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar wella cysylltedd – drwy gynllunio, comisiynu a rheoli rhwydweithiau trafnidiaeth effeithlon, a drwy fanteisio ar y sgiliau gorau o bob rhan o ddiwydiant, llywodraeth a chymdeithas. Gyda'n gilydd, rydyn ni'n creu rhwydwaith trafnidiaeth sy'n addas ar gyfer y dyfodol ac sydd hefyd yn cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor Cymru a'r cymunedau hynny sydd wedi cysylltu â ni, i gyflawni saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Ein pwrpas

**"Darparu gwasanaethau trafnidiaeth gynaliadwy sy'n cadw Cymru i symud."**

Mae rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus sy'n fwy integredig yn un o elfennau allweddol strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru: Ffyniant i Bawb.

Mae trafnidiaeth yn cysylltu pobl â chymunedau, yn sail i ddatblygu cynaliadwy ac yn galluogi twf economaidd. Bydd gwell gwasanaethau a thrafnidiaeth gyhoeddus yn arwain at fuddion gwirioneddol i bobl, yn cynnwys gwell mynediad at gyfleoedd gwaith ac integreiddio gwasanaethau—fel addysg ac iechyd—yn well.

## Ein gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn hanfodol i bopeth a wnawn, ac mae'r rheiny'n rhan annatod o'n diwylliant a'n ffyrdd o weithio.

Byddwn yn creu perthynas o ymddiriedaeth gyda'n cwsmeriaid, ein cydweithwyr a'n rhanddeiliaid, yn seiliedig ar y canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| **Bod yn ddiogel**<br>Iechyd, diogelwch a lles | **Bod y gorau**<br>Perfformiad uchel, cyflymder | **Bod yn gadarnhaol**<br>Os gallwn ni, fe wnawn ni |
| **Bod yn gysylltiedig**Mentrus a rhwydweithiol | **Bod yn deg**<br>Gonestrwydd a chydraddoldeb | **Creu llwyddiant ar y cyd**<br>Brwdfrydedd dros gael y fargen orau |

# Astudiaeth achos:
# Ymgyrch My Name Is


Ar gyfer Mis Hanes Pobl Dduon eleni, fe wnaethom ymuno â'r ymgyrch #MyNameIs. Roedd yr ymgyrch yn annog cydweithwyr i ddefnyddio sillafiad ffonetig eu henwau yn eu llofnodion e-bost.

Mae defnyddio sillafiad ffonetig mewn llofnodion e-bost yn golygu ei bod yn llai tebygol y bydd enwau anghyfarwydd yn cael eu hynganu'n anghywir. Mae hyn, yn ei dro, yn cefnogi cydweithwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a chydweithwyr niwroamrywiol. Gall hefyd gynyddu gwybodaeth y sefydliad am y Gymraeg.

Cafodd yr ymgyrch ei chefnogi gan bost blog mewnol, cyflwyniad yn ein galwad i'r cwmni cyfan, a fideo gan Inein Victor Garrick (Swyddog Diogelwch yn TrC) yn siarad am y rhagfarn mae wedi'i hwynebu oherwydd ei enw Nigeraidd. Gofynnwyd i Inein fod yn wyneb ymgyrch My Name Is Race Equality Matters, a rhoddwyd sylw i'w stori yn y wasg genedlaethol.

Arweiniodd hyn at sgyrsiau gonest ar draws y sefydliad. Mae'r ymgyrch yn cael ei chefnogi gan y tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ac mae hi'n dal i fynd. Mae'n un o'r mannau cychwyn i greu diwylliant cynhwysol ar gyfer TrC.

**https://www.youtube.com/watch?v=xLIZFcRWQpw**




"Mae'r enwau'n cynrychioli pwy ydyn ni ac o ble rydyn ni'n dod – dyma gonglfaen hunaniaeth pob un ohonon ni. Mae'r ymgyrch hon yn ein hatgoffa'n llwyr nad yw'r gallu i fod yn driw i chi'ch hun yn y gweithle yn fraint i bawb."

**Celia Enyioko-Hanniford**
**Pennaeth Cyfathrebu Rheilffyrdd**

# Ein dull gweithredu

Rydyn ni'n defnyddio dull dynol, gonest a defnyddiol o gyfathrebu. Bydd y dull hwn yn golygu bod ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid yn ein deall ac yn ymddiried ynom. Yn y flwyddyn i ddod, rydyn ni'n rhoi canllawiau newydd ar waith ar dôn llais i'n helpu ni i gysylltu'n well â'n cwsmeriaid.

Dynol | Gonest | Atyniadol | Defnyddiol



# Astudiaeth achos:

## Croesawu cydweithwyr newydd

Eleni, cafodd Bidvest Noonan, Pullman Rail Ltd a PTI Cymru eu trosglwyddo i TrC. Fe wnaethon ni groesawu tua 90 o gydweithwyr newydd i deulu TrC.

Roedd angen ein cydweithwyr newydd ni deimlo eu bod yn rhan o TrC cyn iddyn nhw ymuno â ni. Roedd strategaeth gyfathrebu fanwl ar gyfer proses drosglwyddo pob sefydliad. Gan weithio gyda Phobl a Datblygu Sefydliadol a Gwasanaethau Digidol, llwyddwyd i ddarparu'r rhaglenni trosglwyddo hyn.

Roedd ein cydweithwyr newydd wrth galon ein holl waith cynllunio a gwneud penderfyniadau, gan sicrhau eu bod yn teimlo'n rhan o'r sefydliad ac yn deall eu rôl o ran creu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.

Roedden ni'n gyson yn ein dull gweithredu, gan anelu at sicrhau bod y broses drosglwyddo yn brofiad cadarnhaol a chydweithredol i bob cydweithiwr. Fe wnaethon ni sicrhau bod ein cydweithwyr newydd yn cael croeso cyn iddyn nhw ymuno â TrC yn swyddogol a rhoi cyfleoedd iddyn nhw ddweud eu dweud.

Mae'r adborth gan ein cydweithwyr newydd wedi bod yn gadarnhaol. Mae'r adborth hwn yn dangos effeithiolrwydd ein dull gweithredu agored a thryloyw.

Cydweithwyr glanhau newydd yn y depo yng Nghaer



"Roedd integreiddio ein tîm yn PTI i TrC yn gyfnod cyffrous. Yn naturiol, roedd gennym rywfaint o bryder wrth symud o dîm cymharol fach i deulu llawer mwy TrC, ond rydym wedi cael croeso gyda breichiau agored. Rydym wedi sefydlu perthnasoedd gyda'r sector trafnidiaeth yng Nghymru ac wedi rhannu a datblygu ein harbenigedd mewn canolfannau cyswllt cwsmeriaid, marchnata, data trafnidiaeth gyhoeddus a gwybodaeth dechnegol."

**Katie Timmins**
**Pennaeth Ymgysylltu â Chwsmeriaid, Ansawdd a Datblygiad**

# Ein cynulleidfaoedd

Mae ein cynulleidfa'n cynnwys cwsmeriaid, rhanddeiliaid, partneriaid yn y llywodraeth, cydweithwyr a chyflenwyr. Rydyn ni'n ymgysylltu â phobl ledled Cymru a'r gororau drwy ddigwyddiadau galw heibio cymunedol, cyfryngau cymdeithasol a hysbysebu.

Rydyn ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni ei blaenoriaethau. Rydyn ni'n arwain ar bob cais gan sefydliadau'r cyfryngau ac yn darparu datganiadau perthnasol i'r wasg. Mae'r negeseuon penodol hyn a'r defnydd o amrywiaeth o sianeli yn ein galluogi i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o leisiau a gwrando arnynt, gan sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn elwa o deithio cynaliadwy.



## Astudiaeth achos:

## Y Rhwydwaith Cymdeithasol Go Iawn

Ym mis Ebrill, fe wnaethon ni lansio Y Rhwydwaith Cymdeithasol Go Iawn. Dyma'r ymgyrch aml-ddull gyntaf ar drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer Cymru.

Mae'r ymgyrch yn cynnwys hysbysebion teledu, radio, hysbysebion y tu allan i'r cartref ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae wedi cael ei ffilmio mewn lleoliadau ledled Cymru, ac mae'n dangos pobl gyffredin yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i ymweld â'r bobl a'r llefydd maen nhw'n eu caru.

Mae'r ymgyrch 18 mis hon yn annog mwy o bobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol wrth ymweld â theulu a ffrindiau, cymudo i'r gwaith a theithio ar gyfer hamdden. Mae'r ymgyrch yn gwireddu ein huchelgais i gefnogi statws carbon sero-net Cymru erbyn 2050.

Yng Nghymru, mae 99.4% o oedolion wedi gweld neu glywed ein hymgyrch. Mae pob oedolyn wedi'i weld 30.9 gwaith ar gyfartaledd. Mae'r ymgyrch wedi cynyddu'r traffig i'n gwefan a'r ymgysylltu â'n sianeli cyfryngau cymdeithasol.

I fesur effaith yr ymgyrch, rydyn ni wedi datblygu model gwerthuso pwrpasol, wedi'i adeiladu o amgylch y model COM-B ar gyfer newid ymddygiad. Bydd y model hwn yn ein galluogi i werthuso amrywiaeth o fesurau gan gynnwys diddordeb yn y cyfryngau, effaith fasnachol, newid ymddygiad, ac effeithiolrwydd costau. Rydyn ni hefyd yn cynnal arolwg ymhlith cwsmeriaid er mwyn deall perfformiad yr ymgyrch.

https://www.youtube.com/watch?v=C9JMB6VfvKQ




"Mae'r Rhwydwaith Cymdeithasol Go Iawn yn ein hannog ni i gyd i ailfeddwl sut rydyn ni'n cynllunio teithiau ac yn gwneud dewisiadau teithio cynaliadwy. Os ydym i gyd yn defnyddio mwy ar drafnidiaeth gyhoeddus, gallwn fynd yn ôl yn ddiogel i'r 'byd go iawn', gan chwarae ein rhan i helpu i leihau effaith newid yn yr hinsawdd."

**Neil James**
**Pennaeth Brand, Trafnidiaeth Cymru**

# Ein cyflawniadau

Y llynedd, fe wnaethom dynnu sylw at bum thema a fyddai'n llywio ein gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu. Dyma rai o'r ymgyrchoedd a'r prosiectau rydyn ni wedi'u cynnal i gefnogi'r themâu hyn.

Er mwyn adfer ar ôl Covid-19 a helpu i Ddiogelu Cymru, fe wnaethon ni'r canlynol:

- rhannu canllawiau'r llywodraeth a'r effaith ar ein gwasanaethau ar ein sianeli cyfathrebu mewnol ac allanol.
- lansio'r Rhwydwaith Cymdeithasol Go Iawn, ein hymgyrch flaenllaw sy'n annog pobl Cymru i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus unwaith eto.
- rheoli ein fforymau rhanddeiliaid, gyda thrafodaethau'n canolbwyntio ar ddiogelwch yn y gymuned, cynllunio trafnidiaeth, gorsafoedd rheilffordd, ac effaith y coronafeirws ar wasanaethau.
- darparu cyfres o weithgareddau i ysgolion cynradd sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch rheilffyrdd, gan gefnogi'r ymgyrch "I am Rail Safe".
- gweithio i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, ymddygiad peryglus ar ochr rheilffyrdd, hunanladdiad, a bwlio mewn partneriaeth â Heddlu Trafnidiaeth Prydain, Network Rail, Taclo Tipio Cymru a Cadwch Gymru'n Daclus.
- cefnogi digwyddiadau busnes allweddol gan gynnwys cinio CBI Cymru a Brecwast Busnes Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy, gan hyrwyddo ein hymgyrch adfer a chynnyrch cymudwyr.

I ymateb i'r argyfwng hinsawdd, fe wnaethon ni'r canlynol:

- cefnogi datblygu Cledrau Cymru, gwefan sy'n hyrwyddo twristiaeth gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus mewn partneriaeth â Trenau Bach Arbennig Cymru a'n Partneriaethau Rheilffordd Cymunedol.
- cynnal nifer o sesiynau briffio ar Newid yn yr Hinsawdd cyn COP26 ar gyfer Aelodau'r Senedd ac Aelodau Senedd y DU.
- cydweithio ag Ymddiriedolaeth Pentref Cambrian i gefnogi'r gymuned leol, creu mannau gwyrdd, ac annog bioamrywiaeth yng Nghwm Clydach.
- gweithio gyda'n partneriaid cymunedol i gefnogi creu mannau gwyrdd a chyflwyno potiau plannu, gerddi synhwyraidd a bocsys bywyd gwyllt.
- helpu Troeon Trên i drefnu 29 taith gerdded a fynychwyd gan 519 o gerddwyr, gyda 79.3% ohonynt wedi teithio ar y trên.
- gweithio gydag amrywiaeth o grwpiau i osod ac adnewyddu 63 o botiau plannu ar draws y rhwydwaith.

Er mwyn integreiddio gwahanol ddulliau teithio yn well, fe wnaethon ni'r canlynol:

- lansio'r Grŵp Swyddogion Teithio Llesol Cenedlaethol a'r Fforwm Cynghori Cenedlaethol ar Deithio Llesol, gan alluogi ein rhanddeiliaid i gyfrannu at ein gwaith a siapio ein cynlluniau.
- cynnal digwyddiadau ymgysylltu a chyflawni fflecsi fel archebu gan drydydd parti am fflecsi yn Llyfrgell Glynebwy.
- lansio gwefan integredig newydd, gyda 248,000 o gwsmeriaid, ar gyfartaledd, yn ei defnyddio bob mis.
- cydweithio â Chomisiynydd Plant Cymru i lansio Siarter Plant a Phobl Ifanc Trafnidiaeth Cymru.
- brandio cyfnewidfa fysiau newydd Caerdydd.
- lansio ymgyrch beilot T1, gan roi cyhoeddusrwydd i un tocyn integredig ar gyfer teithiau rhatach a haws ar fysiau ledled Cymru.
- datblygu Trafod Trafnidiaeth, pecyn i hwyluswyr ei ddefnyddio wrth ymgysylltu â'r cyhoedd ar bynciau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth.

I hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, fe wnaethon ni'r canlynol:

- cael sylw cenedlaethol ar gyfer ein hymgyrch 'My Name Is'.
- bod yn un o noddwyr PRIDE Abertawe.
- cynnal gweithdai gyrfaoedd gyda grwpiau hygyrchedd.
- lansio Teithiwr Hyderus, prosiect i gefnogi pobl ag anableddau cudd i gynllunio a gwneud siwrneiau ar drafnidiaeth gyhoeddus.
- cynnal digwyddiadau gyrfaoedd yn benodol ar gyfer merched sy'n astudio gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg.
- cefnogi cynllun 'Cartrefi i Wcráin' llywodraethau Cymru a'r DU, sy'n darparu teithio am ddim i ffoaduriaid ar wasanaethau TrC.
- cynnal ymgyrchoedd cyfathrebu mewnol ar ddyddiadau allweddol fel Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl, Diwrnod Cenedlaethol Rhagenwau a Mis Hanes Pobl Dduon.
- cyhoeddi dau Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau, gan gynnwys un ar gyfer Rheilffyrdd TrC am y tro cyntaf, gan nodi'n fanwl sut rydyn ni'n bwriadu lleihau'r bwlch cyflog.
- asesu ein rhaglen Cerdded er Lles, gan nodi a phrofi teithiau cerdded yn y Cymoedd a'r Fro.

Er mwyn cyflawni ein hymrwymiadau, rydyn ni wedi gwneud y canlynol:

- wedi cael ein crybwyll 2,136 gwaith yn y cyfryngau yn ystod y chwe mis diwethaf.
- delio ag 816 o geisiadau gan wleidyddion.
- agor y safle trên ffug yn y depo yn Ffynnon Taf yn ffurfiol ac wedi croesawu dros 600 o gydweithwyr, plant ysgol a gweithwyr allweddol.
- cyhoeddi miloedd o ganllawiau i gymunedau’r Metro i sicrhau bod cymdogion yn deall ein dyheadau.
- ffilmio ffilm gyda phêl-droedwyr Dinas Caerdydd i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd diffibrilwyr.
- croesawu’r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd i’r depo yn Ffynnon Taf er mwyn iddo weld drosto’i hun y gwaith o drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd.
- hyrwyddo lansiad Bws Cymru.
- lansio’r podlediad Jest y Tocyn, gan ddenu dros fil o wrandawyr yn y tymor cyntaf.
- parhau i gydweithio a chyfarfod bob chwarter gyda’r Panel Cynghori Annibynnol.
- gwahodd y Prif Weinidog, Mark Drakeford, i osod torchau Poppies to Paddington yng ngorsaf Caerdydd Canolog.



# Ein hamcanion hirdymor

Er mwyn meithrin perthynas ddibynadwy â'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid, rydyn ni wedi nodi cyfres o amcanion tymor hir. Bydd y rhain yn ein helpu i gyfathrebu mewn modd dynol, gonest, defnyddiol ac atyniadol. Yn ein cynllun busnes, rydyn ni wedi nodi'n fanwl sut byddwn ni'n cyflawni'r nodau hyn.

- Gweithio gyda rhanddeiliaid a chymunedau ar draws dulliau trafnidiaeth gyhoeddus i feithrin cysylltiadau sy'n para a sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed.
- Datblygu dull cydweithredol 'un tîm' Rheilffyrdd Cymunedol, gan annog cymunedau i nodi a manteisio ar gyfleoedd cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol.
- Marchnata teithio integredig sy'n rhoi ein cwsmeriaid wrth galon hyn, sy'n sicrhau gwerth oes i gwsmeriaid ac sy'n cefnogi'r Gymraeg a diwylliant Cymru.
- Creu brand y gellir ymddiried ynddo ac y gellir ei barchu sy'n gyfystyr â rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus aml-ddull effeithiol, integredig ac arloesol sy'n annog dewisiadau teithio cynaliadwy a newid ymddygiad cadarnhaol yn y tymor byr a'r tymor hir.
- Datblygu tîm Cysylltiadau Llywodraeth a Materion Cyhoeddus sy'n darparu ymgysylltu rhagweithiol, ymatebol, diduedd a dwyieithog er mwyn galluogi craffu, hyrwyddo enw da TrC ac ymrwymiad i fod yn agored ac yn dryloyw.
- Cynhyrchu cynnwys o ansawdd uchel ar gyfer sianeli cyfryngau dan ein perchnogaeth, datblygu cysylltiadau cyfryngau allweddol i ddatblygu enw da TrC, annog canfyddiadau cadarnhaol a theithio cynaliadwy.
- Datblygu ein model Partner Busnes Cyfathrebu i ddiwallu anghenion newidiol TrC, gan greu cysylltiadau strategol llwyddiannus a hirdymor rhwng cyfarwyddiaethau a'r tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu i gyflawni amcanion cyffredin.
- Cyflawni ein strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu fewnol, gan harneisio cydweithio ac adeiladu ar ein dull gweithredu 'un-TrC'. Byddwn yn sbarduno newid ymddygiad cadarnhaol ymysg ein cydweithwyr er mwyn cyflawni ein strategaeth fusnes.
- Datblygu ein gallu i gynnal ymgyrchoedd a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar ymddygiad, i ategu'r gwaith o gyflawni amcanion Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021.

# Astudiaeth achos:
## Ymddiriedolaeth Pentref Cambrian

Drwy ein Prosiect Llwybrau Gwyrdd, dyfarnwyd £6,800 i Ymddiriedolaeth Pentref Cambrian i drawsnewid eu hardal y tu allan ym Mharc Gwledig Cwm Clydach.

Roedd y cyllid yn galluogi Ymddiriedolaeth Pentref Cambrian i adfywio ardal segur yn fan cymunedol ar gyfer tyfu cynnyrch a gwella bioamrywiaeth. Fe wnaethon nhw fuddsoddi mewn planhigion sy'n gyfeillgar i bryfed peillio, blychau bywyd gwyllt, ac offer gardd. Darparodd ein partner cyflenwi, Alun Griffiths, sied offer a gwneud yr ardal yn fwy hygyrch.

I fesur llwyddiant y prosiect, byddwn yn edrych ar bresenoldeb ymwelwyr, digwyddiadau a gynhelir yno, niferoedd bywyd gwyllt, a chyfanswm yr arwynebedd a ddefnyddiwyd i blannu.

Mae'r prosiect yn rhan o gynllun ehangach gan TrC, sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, sydd â'r bwriad o gefnogi gwelliannau i fioamrywiaeth mewn 25 o orsafoedd trenau yng Nghymru a phum ardal gymunedol sy'n agos at orsafoedd trenau.

https://www.youtube.com/watch?v=1_M9ErcYtWQ




"Yn ystod y cyfnod clo, roedd y gofod yn wag. Roedden ni eisiau datblygu'r cyfleuster i roi lle i'r gymuned ei hun. Rydyn ni'n ffodus iawn i gael y cyfle hwn i weithio gyda TrC i helpu i warchod bioamrywiaeth."

**Gavin Mcauley**
**Cydlynydd Datblygu Cymunedol yn Ymddiriedolaeth Pentref Cambrian**

# Ein themâu ar gyfer 2022/23

Mae gennym bum blaenoriaeth ar gyfer 2022/23. Bydd y rhain yn sail i'n cynlluniau, ein gweithgareddau a'n negeseuon dros y flwyddyn nesaf.

## Newid ymddygiad trafnidiaeth

Rydyn ni'n gweithio tuag at sicrhau mai trafnidiaeth gynaliadwy yw'r dewis hawsaf i bawb. Byddwn yn gweithio gyda chymunedau ac awdurdodau lleol i gynllunio teithio cynaliadwy. Yn gyfnewid am hynny, byddwn yn ymateb i'w hanghenion teithio er mwyn annog newid ymddygiad.

## Ymateb i'r argyfwng hinsawdd

Rhaid i deithio fod yn gynaliadwy. Drwy ein gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu, byddwn yn ymateb i'r argyfwng hinsawdd drwy gefnogi prosiectau sy'n cyd-fynd â'r maes hwn ar draws cylch gwaith llawn TrC a'n partneriaid cyflawni.

## Integreiddio

Rydyn ni'n integreiddio fel mater o drefn bob amser. Bydd yr integreiddio hwn yn sicrhau bod defnyddio gwahanol ddulliau trafnidiaeth yn hawdd ac yn ddi-dor. Gan weithio ar y cyd â phartneriaid cyflawni ar draws dulliau trafnidiaeth gynaliadwy, byddwn yn cyfleu manteision yr integreiddio hwn.

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Dylai trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol fod yn hygyrch i bawb. Ar draws ein gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu, byddwn yn hyrwyddo'r cymunedau amrywiol sy'n gweithio gyda ni ac yn defnyddio ein gwasanaethau. Byddwn yn eu cynnwys yn y ffordd rydyn ni'n llunio ein gweithgareddau ac yn gwrando ar eu hadborth.

## Cyflawni ein hymrwymiadau

Gan weithio'n agos gyda'n cwsmeriaid, ein cymunedau a'n rhanddeiliaid, byddwn yn cyflawni ein cynlluniau uchelgeisiol i greu rhwydwaith trafnidiaeth sy'n gynaliadwy ac yn integredig. Byddwn yn dathlu ein llwyddiannau i ddangos ein bod yn darparu rhwydweithiau trafnidiaeth y gall pobl fod yn falch ohonynt.

# Canolbwyntio ar:
# Newid ymddygiad trafnidiaeth

Rydyn ni'n cefnogi Llywodraeth Cymru i annog newid mewn ymddygiad o ran teithio fel sydd wedi'i nodi yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae cyrraedd y targedau hyn yn ganolog i'n gweithgareddau yn 2022-23. Prif nodau ein cynlluniau newid ymddygiad yw cynyddu cyfle, cymhelliant a gallu pobl i ddefnyddio llai ar y car a mwy ar drafnidiaeth gynaliadwy.

Mae rhai o'r cynlluniau newid ymddygiad rydyn ni'n eu rhoi ar waith eleni yn cynnwys:

- cyflwyno cynllun ymgysylltu gyda busnesau a sefydliadau'r sector cyhoeddus i annog cymudo cynaliadwy.
- gwneud ymyriadau cynllunio teithio personol ar lefel cartref, y gweithle ac addysg, a hynny mewn partneriaeth â sefydliadau cysylltiedig.
- cynnal rhaglen o weithgareddau ymgysylltu yn y gymuned, gan gynnwys sesiynau blasu cerdded a beicio, archwiliadau beics am ddim, hyfforddiant cynnal a chadw beics.
- datblygu strategaeth twristiaeth gynaliadwy drwy weithio gyda phartneriaid yn y sector twristiaeth i sicrhau ein bod yn dylunio ac yn darparu ein gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion nhw ac anghenion y defnyddiwr.
- cynnwys newid ymddygiad yn rhan o strategaethau prisio a thocynnau TrC – gan gynnwys diogelu refeniw a pharcio ceir mewn gorsafoedd.
- deall effaith prisiau fel ysgogydd ar gyfer newid dulliau teithio.
- adeiladu ar ymgyrch bresennol TrC ar drafnidiaeth gynaliadwy 'Y Rhwydwaith Cymdeithasol Go Iawn', i ddarparu gweithgareddau marchnata cenedlaethol effeithiol ac atyniadol i ysgogi newid mewn ymddygiad o ran teithio ledled Cymru.
- gwerthuso llwyddiant ein prosiectau gyda model wedi'i seilio ar fodel COM-B ar gyfer newid ymddygiad.

# Astudiaeth achos:
# Podlediad Jest y Tocyn


Ym mis Rhagfyr 2021, fe wnaethon ni lansio ein podlediad, Jest y Tocyn. Mae'n edrych ar drafnidiaeth gyhoeddus a chynaliadwyedd yng Nghymru a'r gororau.

Mae 13 pennod yn y tymor cyntaf, bob un tua 30 munud o hyd. Mae'r podlediad yn cael ei gynhyrchu'n llawn a'i gynnal yn fewnol yn Llys Cadwyn gan y tîm cyfryngau. Mae gwesteion arbenigol yn rhoi sylw i faterion sy'n amrywio o reoli llystyfiant i Wythnos Cydraddoldeb Hiliol. Mae'r fformat yn caniatáu i ni ystyried pynciau'n fanwl ac o sawl safbwynt.

Y cynulleidfaoedd dan sylw yw ein cydweithwyr, pobl eraill sy'n gweithio yn y sector trafnidiaeth, ac aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb. Yn ystod y chwe mis cyntaf, mae'r podlediad wedi cael dros fil o wrandawyr. Y penodau mwyaf poblogaidd oedd Teithio Llesol, Metro De Cymru a Datblygiad TrC.

Mae'r ail dymor yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, a bydd yn adeiladu ar lwyddiant y cyntaf. Rydyn ni'n rhoi strategaethau ar waith i ddatblygu ein cynulleidfaoedd mewnol ac allanol.

https://news.tfw.wales/podcasts/




"Ni yw un o'r cwmnïau trafnidiaeth cyntaf yn y DU i gael ein podlediad ein hunain. Rydyn ni'n edrych yn fanwl ar bynciau pwysig fel trawsnewid y Metro. Mae Jest y Tocyn yn dod yn elfen bwysig yn ein dulliau cyfathrebu."

**James Williams**
**Pennaeth Cyfryngau**

# Gwerthuso ein llwyddiant

Rydyn ni'n gwerthuso ein heffaith drwy gydol y flwyddyn i sicrhau ein bod yn cyrraedd y bobl iawn ac yn cyfleu'r negeseuon cywir i sbarduno ymddygiad teithio cynaliadwy.

Eleni, rydyn ni wedi gweld cynnydd mawr yn nifer y bobl sy'n ymgysylltu â ni. Mae nifer y cwsmeriaid sy'n defnyddio llwyfannau ar-lein bellach yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig.

Mae **99.4%** o oedolion yng Nghymru wedi gweld neu glywed ein hymgyrch Rhwydwaith Cymdeithasol Go Iawn

Fe wnaethon ni ddatrys ceisiadau cymdogion Llinellau Craidd y Cymoedd yn llawn mewn **11.9** diwrnod ar gyfartaledd

Roedd **158** o bobl wedi mabwysiadu gorsaf yn 2021/22

Ymwelodd **600** o bobl â'n ffug drenau yn y depo yn Ffynnon Taf

Ymwelodd **248,000** o ddefnyddwyr â'n gwefan bob mis ar gyfartaledd, cynnydd o 212.8% ers y llynedd

Cawsom ein henwi **2,136** gwaith yn y cyfryngau yn ystod y chwe mis diwethaf, 98% ohonynt yn gadarnhaol, yn niwtral neu'n gytbwys o ran tôn

Fe wnaethon ni ymateb i **816** o geisiadau gan wleidyddion yn ystod y cyfnod hwn

# Astudiaeth achos:
# Cledrau Cymru

Eleni, cafodd Cledrau Cymru ei lansio. Bydd y prosiect yn annog mwy o bobl i deithio ledled Cymru mewn modd cynaliadwy gan ddefnyddio'r rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol, rheilffyrdd treftadaeth a bysiau.

Bydd yn galluogi defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i gysylltu atyniadau twristaidd allweddol ac yn rhoi cyfle i ymwelwyr brofi rhai o'r rhwydweithiau rheilffyrdd harddaf yn y byd. Gall ymwelwyr gynllunio eu taith o amgylch Cymru a dewis o blith themâu a syniadau atyniadau i ymwelwyr.

Cafodd y fenter newydd ei hariannu ar y cyd gan Bartneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol Trafnidiaeth Cymru a Croeso Cymru. Rheolir y prosiect gan Trenau Bach Arbennig Cymru.

Mae'r prosiect hwn yn dangos pwysigrwydd ein Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol yn TrC a sut maen nhw'n gweithio ar y cyd i ddod â manteision cymdeithasol ac economaidd i'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

**www.walesonrails.co.uk**




"Mae gan Gymru rai o'r rheilffyrdd harddaf yn y byd. Wrth i ni ddechrau teithio mwy ar ôl y pandemig, rydyn ni eisiau i bobl ymweld â Chymru mewn modd cynaliadwy a gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn rhan o'u prif reswm dros ymweld â Chymru."

**David Jones**
**Rheolwr Cyffredinol Rheilffordd Llyn Tegid a Chadeirydd Trenau Bach Arbennig Cymru**